



Symud i Mewn



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Beth fydd angen i mi ei wneud wrth symud i mewn?

Wrth symud i'ch cartref byddwn yn darparu:

- Copi o'ch cytundeb tenantiaeth
- Llawlyfrau a thafleuni cyngor defnyddiol
- Dwy set gyflawn o oriadau'r eiddo
- Cyfarwyddiadau gwresogi a Thystysgrifau Perfformiad Egni
- Manylion am y stop tap cyflenwadau dŵr a nwy a switsys rheoli'r prif gyflenwad trydan.

Bydd angen i chi wneud y trefniadau hyn:

- Os ydych chi'n derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynwysol, mae'n rhaid i chi ddweud wrth y Cyngor neu'r Adran Gwaith a Phensiynau, a gwneud cais newydd cyn i chi symud i mewn i'ch cartref newydd. Hefyd os ydych chi'n hawlio unrhyw fudd-daliadau eraill dywedwch wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith eich bod chi'n symud
- Cysylltwch â'r cwmnïau trydan, nwy, dŵr a ffôn i gadarnhau eich bod chi am iddyn nhw ddarparu gwasanaethau i'ch cartref chi. Gwnewch gofnod o'r darlleniad ar y mesuryddion gynted rydych chi'n symud i mewn a'u gwirio yn erbyn eich biliau cyntaf ar ôl iddynt gyrraedd



- Trefnu i'ch post ddod i'ch cartref newydd
- Hysbysu eich meddyg, deintydd ac unrhyw un arall rydych chi'n dibynnu arnynt fod eich cyfeiriad wedi newid
- Trefnu trosglwyddo eich trwydded deledu
- Dywedwch wrth unrhyw awdurdodau trwyddedu eraill fel yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) eich bod chi wedi symud
- Trefnu symud eich dodrefn

Gallwn eich cynorthwyo i lenwi ffurflenni angenrheidiol pan fyddwch chi'n dod i arwyddo am yr eiddo. Fe wnawn ni ddefnyddio'r rhain i hysbysu gwasanaethau a sefydliadau perthnasol e.e. Dŵr Cymru, am y newid, a manylion y denantiaeth, ond bydd rhaid i chi wneud eich trefniadau eich hun o ran talu'r sefydliadau hynny gynted ag y byddwch chi'n symud i mewn.



Os ydych chi angen mwy o gymorth neu os ydych chi'n ei chael yn anodd ymdopi â'r holl drefniadau symud, gallwn roi mwy o help i chi, fel cyfrifo eich costau wythnosol, neu weld pa ddodrefn sydd eu hangen a lle i'w cael. Gan amlaf, byddwn yn ceisio eich helpu gyda hyn cyn i chi symud i mewn.

A oes angen i mi drefnu yswiriant cynnwys fy nghartref?

Gan nad ydym ni'n darparu yswiriant cynnwys, cynghorir chi i drefnu eich yswiriant cynnwys eich hun. Bydd hyn yn eich yswirio yn erbyn difrod i'ch eiddo personol, dodrefn, carpedi a chynnwys arall eich cartref a'r addurno, yn cynnwys difrod gan dân neu lifogydd. Bydd hefyd yn cwmpasu eitemau penodol os ydynt yn cael eu dwyn ac unrhyw ddifrod damweiniol i'ch cartref y byddai'n ofynnol i chi ei drwsio neu y byddem ni'n codi tâl arnoch amdano os gofynnir i ni ei drwsio.

Medrwn roi taflen i chi am gynllun yswiriant sy'n caniatáu i chi dalu am eich yswiriant cynnwys mewn rhandaliadau. Holwch ni am manylion.

Pryd fydda i'n cymryd y denantiaeth?



Chi fydd y tenant cyfreithiol ar y dyddiad a nodir yn eich cytundeb tenantiaeth. O hynny ymlaen rydych chi'n gyfrifol am yr eiddo ac am dalu'r rhent. Bydd yn ofynnol i chi symud i mewn ar unwaith, ond hyd yn oed os nad ydych yn gwneud hyn mae'n rhaid i chi dalu'r rhent am eich cartref newydd. Bydd eich Swyddog Tai yn trefnu ymweld â chi yn fuan ar ôl i chi symud i mewn, ac wedyn chwe mis ar ôl dechrau'r denantiaeth i weld sut rydych chi'n ymgartrefu ac i drafod unrhyw broblemau rydych chi wedi eu wynebu. Mae croeso i chi gysylltu â'r swyddfa leol os ydych chi'n dymuno trafod unrhyw beth cyn yr ymweliadau hyn.

Ga' i osod fy gosodiadau fy hun?

Cewch. Fe gewch chi osod eich gosodiadau eich hun cyn belled nad ydych chi'n difrodi nac yn cael gwared ar unrhyw beth, nac yn newid yr eiddo. Os ydych chi am wneud addasiadau o unrhyw fath mae'n rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig gennym ni yn gyntaf, neu ofyn i ni am gyngor cyn dechrau ar unrhyw waith. (Am fwy o wybodaeth, ewch i Adran 7 'Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw fy nghartref').



A ydych chi'n cadw goriadau sbâr i fy nghartref?

Nac ydym. Byddwn yn rhoi dwy set o oriadau i chi pan fyddwch chi'n symud i mewn. Eich cyfrifoldeb chi yw cael setiau ychwanegol neu adnewyddu'r goriadau os ydych chi'n eu colli. Gallai fod yn ddefnyddiol gofyn i berthynas neu ffrind gadw set sbâr i chi i'w defnyddio mewn argyfwng.

Cofiwch os ydych chi'n gofyn am newid y cleon byddwn yn codi tâl am y gwasanaeth yma.

A fydd fy nghartref yn cyrraedd y safon pan fydda' i'n symud i mewn?

Bydd. P'un ai chi yw'r tenant cyntaf mewn cartref newydd sbon, neu denant sy'n symud i gartref a adawyd yn ddiweddar, bydd rhaid i'r eiddo gyrraedd ein safon gosod.

Mae ein Tîm Cynnal a Chadw yn archwilio'r cartref yn fanwl ac yn cadarnhau ei fod yn dderbyniol cyn i denant symud i mewn. Byddwn yn gwneud unrhyw waith trwsio sy'n ofynnol i ddod â chartref y bu rhywun yn byw ynddo i'r safon gosod.

Weithiau byddwn yn nodi mân waith trwsio y gellir ei wneud ar ôl i chi symud i mewn. Mewn amgylchiadau o'r fath byddwn yn cytuno ar y trefniadau efo chi ac yn eich cyngori am y sefyllfa.

Os yw eich cartref yn newydd sbon, yn arferol bydd y 6 neu'r 12 mis cyntaf yn rhan o'r cyfnod a elwir 'y cyfnod diffygion' pan fo'r contractwr a adeiladodd yr eiddo yn parhau'n gyfrifol am gywiro unrhyw ddiffygion sy'n dod i'r golwg. Dyma'r drefn arferol yn y diwydiant adeiladu. Pan fyddwch chi'n symud i mewn byddwn yn egluro sut mae hyn yn effeithio arnoch chi a'ch cartref, a sut y dylech ein hysbysu am unrhyw ddiffygion. Yna byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chi ynglŷn â rhaglen y contractwr i ddelio efo unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg, ac yn cadw golwg ar gyflawni hyn.

Dylech hysbysu ein tîm Gwasanaeth Cwsmer os oes angen gwneud unrhyw waith trwsio.

Yr unig eithriad i'r uchod yw pan ydych yn symud drwy 'gydgyfnewid' gan gymryd tenantiaeth rhywun arall - rydych yn cytuno i dderbyn cyflwr addurniadol yr eiddo fel y mae.

A ydw i'n gyfrifol am beintio ac addurno fy nghartref?

Ydych. Rydych chi'n gyfrifol am gadw tu mewn eich cartref mewn safon derbyniol a sicrhau bod cyflwr yr addurno yn dda.

Wrth dderbyn eich tenantiaeth gofynnir i chi lofnodi ffurflen 'cofnod cyflwr yr eiddo'. Mae'r ffurflen hon yn cadarnhau, os byddwch chi'n gadael y cartref, y disgwylir i'r eiddo gael ei drosglwyddo'n ôl i'r Gymdeithas mewn cyflwr da.

Petaech chi'n penderfynu rhoi'r gorau i'ch tenantiaeth, byddwn yn archwilio eich cartref, ac os nad yw cyflwr yr addurno yn dderbyniol byddwn yn gofyn i chi ailaddurno cyn i chi adael, neu dalu i ni wneud y gwaith ar eich rhan.

Rhaid i chi gofio y bydd rhaid i unrhyw waith addurno rydych chi'n ei wneud fod i safon derbyniol.

Os yw eich cartref yn newydd sbon a chi yw'r tenant cyntaf, gofynnwn i chi beidio ag ailaddurno'r eiddo am y 12 mis cyntaf, yn enwedig peidio â phapuro'r waliau na'r nenfydau. Bydd hyn yn caniatáu medru gweld unrhyw fân graciau sychu yn y plaster, a'i gywiro. Ar ôl y cyfnod hwn fe gewch chi addurno'r eiddo.

Y Gymdeithas sy'n gyfrifol am beintio tu allan yr adeilad a manau cymunedol blociau fflatiau h.y. y grisiau a'r cymteddau.



Cyngor ar addurno defnyddiol

Wrth addurno eich cartref gofynnwn i chi beidio â defnyddio paent emwlsiwn ar gyfer unrhyw ran ac eithrio waliau a nenfydau, a pheidio â defnyddio paent emwlsiwn na phaent sglein ('gloss') ar reiddiaduron, gwresogyddion stôr, socedi trydanol a switsys golau. Yn yr un modd, disgwyliwn i chi ddefnyddio paent addas ar y gwaith pren e.e. paent sglein neu baent sidan pwrpasol ar gyfer pren ('satinwood').

Rydym yn derbyn y gellir gwella rheiddiaduron hŷn mewn rhai amgylchiadau, ond dylech ddefnyddio paent enamel rheiddiaduron yn unig ar gyfer y gwaith hwn. Peidiwch â defnyddio paent emwlsiwn na phaent sglein gan y gall y rhain achosi i'r rheiddiaduron ddirywio. Cysylltwch â ni i gael arweiniad pellach.

